Cyflwyniad

Mae Cronfa Datblygu'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (CLS) yn ffrwd cyllid grantiau bach sydd i'w defnyddio'n hyblyg i gynorthwyo datblygu gwasanaethau o fewn y CLS yng Nghymru. Mae'r nodiadau canllaw hyn yn nodi prif nodau Rhaglen Grantiau Bach Cronfa Datblygu'r CLS (Cymru) 2004/5, a'r prosesau ar gyfer cyflwyno'r Rhaglen.

Themâu y Rhaglen

Bydd y Rhaglen (sydd â chyfanswm cyllideb o tua £100,000 yn dyfarnu grantiau o hyd at £5,000 tuag at gostau prosiectau yn targedu un o'r themâu dilynol:

- gwaith gyda ffocws ar wella mynediad i'r CLS ar ran cymunedau sydd wedi eu hallgau yn gymdeithasol – a ddiffiniwyd yn nhermau lleoliad daearyddol (e.g. pobl yn byw yn stad tai *x*) neu nodweddion cymdeithasol (e.e. pobl hŷn, pobl ifanc, pobl ifanc, menywod ac ati ..) – gyda phwyslais arbennig ar annog dynodiad cynnar o broblemau cyfreithiol, a'r ffynonellau gwybodaeth a chyngor sydd ar gael i gynorthwyo i'w datrys; neu

- cyflwyno hyfforddiant i sylwyr problem o fewn ardal Partneriaeth Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol, gan arwain at welliant wrth arwyddbostio'r rhai sydd angen gwybodaeth a chyngor i'r darparydd gwasanaeth mwyaf priodol gyda Nod Ansawdd.

Hyd y Prosiect

Ar gyfer y naill thema neu'r llall, dyfernir grantiau ar gyfer prosiectau yn rhedeg am hyd at 12 mis, ac mae'n rhaid i bob prosiect fod wedi dechrau erbyn 31 Mawrth 2005. Bydd prosiectau llwyddiannus yn derbyn eu cyllid fel un taliad ar ddechrau'r prosiect.

Maint y Prosiect

Medrir dyfarnu grantiau i dalu am gostau llawn prosiect hyd at £5,000 mewn gwerth, neu fel cyfraniad at brosiect yn costio mwy na £5,000. Nid oes unrhyw ofyniad ffurfiol ar gyfer arian cyfatebol o fewn y Rhaglen Grantiau Bach, er y dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol fod gwerth am arian yn un o'r meini prawf ar gyfer asesu ceisiadau.

Ceisiadau

Rhaid gwneud ceisiadau am gyllid yn defnyddio'r ffurflen gais a atodir gyda'r canllawiau hyn. Medrir cael copïau pellach gan y tîm Cynllunio a Phartneriaeth ar (029) 2064 7110; neu yn ein gwefan – www.legalservices.gov.uk

Amserlen

Bydd dau gylch gwneud penderfyniadau ar gyfer y Rhaglen Grantiau Bach (Cymru) 2004/5. Caiff ceisiadau a dderbynnir erbyn 1pm ddydd Gwener 29 Hydref 2004 eu hasesu yn ystod mis Tachwedd 2004, a bydd ymgeiswyr yn derbyn hysbysiad o ganlyniad eu ceisiadau yn ystod yr wythnos yn dechrau 6 Rhagfyr 2004. Disgwyliwn ddyfarnu grantiau hyd at uchafswm gwerth o tua £40,000 fel rhan o'r cylch cyllido cyntaf hwn.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau ar gyfer y cylch olaf yw dydd Gwener 17 Rhagfyr 2004. Caiff y ceisiadau hyn eu hasesu yn ystod Ionawr 2005 a hysbysir ymgeiswyr am ganlyniad eu ceisiadau yn fuan ar ôl 16 Chwefror 2005.

Caiff ceisiadau na fu'n llwyddiannus ar gyfer cylch cyntaf y cyllid eu hailystyried gyda cheisiadau newydd yn yr ail gylch.

Meini Prawf Penderfynu

Caiff ceisiadau eu hasesu ar y meini prawf dilynol:

Effeithlonrwydd Cost

Y graddau y mae'r cais yn cynrychioli gwerth da am yr arian i gael eu buddsoddi. Caiff y maen prawf hwn ei asesu yn wrthrychol (a yw'r cynigion yn ymddangos yn rhesymol ynddynt eu hunain?) ac yn oddrychol (a yw'r cynigion yn ymddangos yn rhesymol o gymharu â cheisiadau tebyg a dderbyniwyd?). Lle mae cynnig o reidrwydd yn ddrutach oherwydd y cyd-destun neu amgylchiadau neilltuol yn effeithio ar gyflwyniad y prosiect, rhaid i'r ymgeisydd sicrhau y caiff y rhesymau dros y costau ychwanegol eu hesbonio'n llawn yn y cais (er enghraifft gall fod angen costau ychwanegol i wneud cyhoeddiadau ar gael mewn ffurfiau priodol ar gyfer grwpiau cleient neilltuol; neu i gyflwyno gwasanaeth i bobl mewn cymunedau gwledig).

Cysylltiadau gyda chynlluniau a/neu brosiectau cymunedol eraill

Bydd prosiectau a all arddangos cysylltiadau gyda chynlluniau neu brosiectau eraill gyda sail cymunedol yn derbyn blaenoriaeth ar gyfer cyllid. Gall cynlluniau cymunedol gynnwys (ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i) rhai'n gysylltiedig â strategaethau Partneriaeth Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol, Cynlluniau Cymunedol, strategaethau Cymunedau'n Gyntaf a strategaethau Iechyd a Llesiant. Yn yr un modd, gall fod cyfleoedd i gysylltu prosiect a gefnogir gan y Rhaglen Grantiau Bach i waith arall sy'n digwydd eisoes. Dylai ceisiadau esbonio'n glir sut mae'r prosiect arfaethedig yn ffitio gyda'r cynllun cymunedol perthnasol.

Nifer darpar fuddiolwyr

Dylai ymgeiswyr nodi nifer y buddiolwyr a fydd yn cael mantais o'r prosiect arfaethedig, a'r systemau a ddefnyddir i fonitro cynnydd yn erbyn y targedau hyn. Lle cafodd nifer buddiolwyr ei amcangyfrif, dylid nodi ar ba sail y gwnaethpwyd yr amcangyfrif ac unrhyw dybiaethau sy'n sail i hynny.

Cymuned a Wasanaethir

Yn y cyd-destun hwn, medrir diffinio cymuned fel 'ardal ddaearyddol' neu 'gymuned diddordeb' neu'r ddau. Cynhwysir yr enghreifftiau dilynol ar gyfer pwrpasau darluniol yn unig:

- pobl yn byw ym Mharc Caia (ardal ddaearyddol)
- pobl hŷn (cymuned diddordeb)
- pobl lesbian, hoyw a deurywiol yn byw yn ne orllewin Cymru (ardal ddaearyddol a chymuned diddordeb).

Byddwn yn anelu i sicrhau fod cyllid o'r Rhaglen Grantiau Bach o fudd i groestoriad mor eang ag sydd modd o gymunedau (yn gymunedau daearyddol a hefyd yn gymunedau diddordeb).

Rhannu Gwybodaeth gyda Chyllidwyr Eraill

Lle ymddengys fod ceisiadau i'r Rhaglen Grantiau Bach yn ateb meini prawf rhaglenni cyllid eraill, yr ydym wedi cytuno y medrwn gyfeirio'r ceisiadau at gyllidwyr eraill yn y lle cyntaf. Pe bai'r cyllidwr arall yn penderfynu peidio cefnogi'r prosiect, caiff ei ystyried ar gyfer cyllid o'r Rhaglen Grantiau Bach yn y ffordd arferol. Rhaid i ymgeiswyr nodi ar y ffurflen gais p'un ai ydynt yn rhoi caniatâd i'w cais gael ei ystyried gan gyllidwyr eraill. Mae dyfarniadau ar gyfer Cymru-gyfan (cynllun grantiau bach y loteri) a'r

Ymddiriedolaeth Adfywio Meysydd Glo eisoes wedi cytuno i dderbyn cyfeiriadau ar y sail hwn, a rydym yn parhau mewn trafodaethau gyda chyllidwyr eraill.

Prif Delerau ac Amodau Cyllid

Bydd dyfarniad cyllid o'r Rhaglen Grantiau Bach yn ddibynnol ar i'r sefydliadau llwyddiannus gwblhau llythyr Cytundeb Cyllido, y caiff y prif delerau ac amodau eu nodi yn yr adran hon. **Drwy anfon y ffurflen gais, mae ymgeiswyr yn cadarnhau eu bod yn barod i lofnodi Cytundeb Cyllido yn seiliedig ar y telerau a'r amodau hyn.** Os dyfernir cyllid gan gorff cyllido arall – dan y trefniadau cyfeirio a nodir yn adran flaenorol y Nodiadau Canllaw hyn – yna bydd y grant yn amodol i'r telerau ac amodau a osodir gan y corff cyllido hwnnw.

Adroddiadau ar y gwaith a gyllidwyd

Dymunwn dderbyn adroddiad ar y gwaith a gefnogir gan y cyllid hwn. Dylai'r adroddiad amlinellu sut y defnyddiwyd y cyllid i gyflawni'r gwaith a nodwyd yn yr adran 'Pwrpas cyllid' uchod. Dylid anfon yr adroddiad erbyn *[doder dyddiad]]* at *[enw cyswllt LSC]*, *[teitl swydd]* yn y lle cyntaf.

Pwrpas yr adroddiad fydd rhoi sicrwydd i ni y defnyddiwyd y cyllid ar gyfer y gwaith a gytunwyd. Ni chewch ddefnyddio'r cyllid ar gyfer gweithgareddau heblaw'r rhai a fanylwyd yn y cytundeb hwn.

Mesurau rheoli cyfrifeg

Bydd *[eich Swyddog Cyfrifyddu]*, *[enw a swydd]* neu ei [h]olynydd yn gyfrifol am weld fod y mesurau rheoli ariannol a mesurau rheoli eraill a ddefnyddir yn ddigonol i sicrhau y caiff y cyllid ei wario'n gywir, darbodus ac economaidd.

Bydd gan ein swyddogion hawl i gael mynediad ar bob amser rhesymol i unrhyw ddogfen yn gysylltiedig â *[enw'r prosiect]* y credwn fod angen i roi sicrwydd i ni a'n Swyddogion Cyfrifyddu y cafodd amodau a thelerau'r cyllid eu diwallu (dogfennau i gynnwys llyfrau a chofnodion ac ati, yn cynnwys cofnodion cyfrifiadurol).

Disgwyliwn i'ch Swyddog Cyfrifyddu fod yn gyffredinol gyfrifol am sicrhau y caiff y cyllid ei wario mewn modd priodol ac y cedwir cofnodion cyfrifyddu cywir yng nghyswllt y prosiect yn unol â safonau cyfrifeg a dderbynnir yn gyffredinol.

Nod Ansawdd

Cawsoch [chi] Nod Ansawdd ar y [doder lefel/math] ers [dyddiad] a bydd yn ofynnol i chi gynnal y Nod Ansawdd am y flwyddyn y dyfarnwyd cyllid NEU yr ydych wedi ymrwymo i gael y Nod Ansawdd ar [doder lefel/math] erbyn [dyddiad].

[*Rheolaeth olygyddol a hawlfraint [OPSIYNOL]*

*Cytunwn mai chi a'r awduron sydd â'r rheolaeth olygyddol a hawlfraint yn gysylltiedig â [deunydd a gynhyrchwyd dan y cyllid]. Cytunwch i roi trwydded fythol, an-ecsliwsif, di-freindal i ni i ddefnyddio hawlfraint mewn unrhyw waith neu ddeunyddiau a grëwyd yn defnyddio cyllid a ddyfarnwyd gennym ni.****]***

Adroddiad Blynyddol

Byddwch *[Chi]* yn rhoi copi o'ch Adroddiad Blynyddol i ni. Rhaid i hyn gael ei anfon atom o fewn dau fis o gael ei gyhoeddi.

Cyfle cyfartal

Ers mis Rhagfyr 2001 buom yn ddarostyngedig i oblygiadau statudol y Ddeddf Cysylltiadau Hil (Newidiad) 2000 fel cyflogwyr a hefyd fel darparydd gwasanaethau. Yr ydym hefyd yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb yng nghyswllt hil, anabledd, oedran, crefydd a thueddiad rhywiol.

Fel sefydliad a gyllidir, byddwch yn sicrhau fod unrhyw un yn gweithredu ar eich rhan yn cydymffurfio gyda chyfraith y Deyrnas Gyfunol ac, yn neilltuol, nad yw'n cyflawni unrhyw weithred o wahaniaethu a fernir yn anghyfreithlon gan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975, y Ddeddf Cysylltiadau Hil 1976 (fel y'i newidiwyd gan y Ddeddf Cysylltiadau Hil (Newidiad) 2000) neu'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1996.

Byddwch yn rhoi copi o'ch Polisi Cyfle Cyfartal i ni erbyn [dyddiad].

Cyhoeddusrwydd

Byddwn yn ymdrechu i gynnwys *[enw'r prosiect/gwasanaeth]* mewn cyfleoedd cyffredin ar gyfer hysbysebu'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (CLS) ond *[chi]* fydd â'r cyfrifoldeb penodol am gyhoeddusrwydd.

I gynyddu proffil y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol, rhaid i chi gydnabod eich rôl yn y CLS a ffynhonnell eich cyllid lle bynnag y bydd cyfle. Mae hyn yn cynnwys cyfeirio at y

CLS a'r cyllid yn eich dogfennau swyddogol (e.e. Adroddiad Blynyddol), ar eich gwefan, yn eich cyhoeddusrwydd ac unrhyw ddeunyddiau ysgrifenedig eraill perthnasol. Cyhyd â bod gennych Nod Ansawdd *[lefel]* y CLS, caniateir i chi arddangos logo swyddogol y CLS ar eich gwefan ac mewn unrhyw ddeunyddiau eraill (dim ond sefydliadau gyda Nod Ansawdd y caniateir iddynt arddangos y logo hwn). Lle cyhoeddwch y logo CLS, rhaid i chi gydymffurfio â'n cyfyngiadau ar sut y medrir cyflwyno'r logo hwn (e.e. lliw inc, maint ffont a safle ar y dudalen).

Rhaid i'r holl ddeunydd hyrwyddo gael ei roi i *[Rheolwr Cyfathrebu Rhanbarthol LSC] [i'w gymeradwyo]* cyn ei ryddhau.

Eich cyfrifoldebau

Byddwch yn cymryd pob cam rhesymol i yswirio yn erbyn unrhyw risgiau a all godi yng nghyswllt unrhyw eiddo neu weithgaredd gennych a gaiff gymorth grant yn llwyr neu'n rhannol gennym ni. Mae hyn yn cynnwys unrhyw golled neu anaf personol i bersonau'n ymgymryd â'r gweithgareddau hyn.

Prynu offer cyfalaf

Lle defnyddir cyllid i brynu offer cyfalaf medrwch gadw'r eitemau a bwrcaswyd ar ddiwedd y tymor cyllid.

Torri amodau

Yr ydym yn cadw'r hawl i adennill y cyllid hwn, yn gyfan neu yn rhannol, i'r graddau na chaiff ei ddefnyddir ar gyfer y dibenion a'r gweithgareddau a gytunwyd gyda ni, os ystyriwn nad yw unrhyw derm neu amod cyllid eraill yn cael eu cyflawni.

Planning and Partnership Team
CLS Development Fund Application
Legal Services Commission
Marland House
Central Square
Cardiff CF10 1PF